**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**CLA528 - Gorchymyn Ysgol Uwchradd y Dwyrain (Newid Amserau Sesiynau Ysgolion) 2015**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan adran 2 o bennod 1 o Ddeddf Addysg 2002 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru, ar gais corff cymwys, i eithrio'r corff hwnnw rhag darpariaethau penodol deddfwriaeth addysg. Yn rhinwedd rheoliad 4(2), (3) a (4) y gorchymyn, ni fydd newid Rheoliadau Amserau Sesiynau Ysgolion 2009 yn gymwys i gorff llywodraethu Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Bydd hyn yn caniatáu i'r corff llywodraethu wneud newidiadau i pryd y bydd sesiynau'r ysgol yn dechrau a gorffen, gan gynnwys pryd y bydd yr ysgol yn dechrau a gorffen, o 1 Mehefin 2015 yn hytrach nag ar ddechrau'r tymor ysgol neu'r flwyddyn. Caiff y gorchymyn effaith tan 31 Awst 2015.

## 1. Materion technegol: craffu

*Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.*

## 2. Rhinweddau: craffu

O dan Reol Sefydlog 21.3 gwahoddir y Cynulliad i nodi'r Gorchymyn hwn.

Pennod 1 o Ddeddf Addysg 2002 yw hwyluso gweithredu prosiectau arloesol a allai, ym marn Gweinidogion Cymru, gyfrannu at godi safonau addysgol trwy godi gofynion rheoliadol am gyfnod penodol i hwyluso treialu prosiect arloesol sydd â'r potensial i godi safonau addysgol.

Dengys chwiliad o gronfa ddata ddeddfwriaethol Lexis mai dyma'r tro cyntaf i Weinidogion Cymru arfer y pŵer hwn.

Efallai yr hoffai'r aelodau nodi hefyd, er gwaethaf ei gymhwyso'n lleol, y gwneir y Gorchymyn hwn yn unol â gweithdrefn statudol ffurfiol.

## 3. Ystyriaeth y Pwyllgor

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Mai 2015 a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd yn adran 2 uchod.